

1. Sylwadau Cyffredinol:

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru). Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau fod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy. Yn y cyd-destun hwn, ystyr cynaliadwy yw ceisio bod o fudd, ac mewn ffordd a ddylai fod o fudd, i bobl, amgylchedd ac economi Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym ni'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn oherwydd ein perthynas waith agos â llywodraeth leol, yn enwedig o ran ein swyddogaeth fel aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus y bwriedir eu sefydlu o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym ni'n cefnogi ac yn croesawu fod mwy o bwyslais ar "Le" yn y Papur Gwyn a hefyd y pwyslais ar anghenion a'r gwasanaethau ar gyfer pobl yn y lle hwnnw.

Ychydig iawn, fodd bynnag, sydd yna o gyfeiriad yn y Papur Gwyn, ac felly, ychydig o gydnabyddiaeth, o'r rhan y mae Awdurdodau Lleol yn ei chwarae wrth ddarparu amgylcheddau naturiol hygyrch o safon ac wrth gynnal y gwasanaethau a'r buddion sy'n deillio o'r amgylcheddau a'r adnoddau hynny ar gyfer cymdeithas a'r economi. Er enghraifft, darparu parciau a mannau gwyrdd ar gyfer hamdden a chwarae, bywiog neu fel arall; rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, rheoli risgiau amgylcheddol drwy gynlluniau rheoli dŵr a gweithredu ar dipio anghyfreithlon. Er na fyddwn yn disgwyl gweld llawer o fanylion yn y Papur Gwyn, fe fyddwn yn disgwyl cydnabyddiaeth o'r amgylchedd ac o reoli adnoddau naturiol er mwyn sicrhau y bydd y cynigion terfynol yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gofyn am ystyried a darparu'n gyfun ar draws materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

2. Sylwadau Penodol:

1. Adolygiad o ariannu

Dylai pob adolygiad sefydlu fframwaith ariannu a threfniadau ar gyfer gwireddu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig yr angen i annog cymryd penderfyniadau a gwaith rhwystro

mwy hir dymor er mwyn gallu cyrraedd y nodau, er enghraifft, cymdeithas carbon isel.

Os yw'r fformiwla ddosbarthu i gael ei hadolygu, dylai meini prawf yr adolygiad gyd-fynd ag egwyddorion llywodraethu'r Ddeddf er mwyn sicrhau fod y fformiwla'n talu sylw i'r dangosyddion economaidd-gymdeithasol ac amodau amgylcheddol / naturiol. Byddai hyn o help i Awdurdodau Lleol weithredu'n ôl y gofyn o dan y Ddeddf.

2. Rhesymoli partneriaethau

Rydym ni'n cefnogi'r bwriad cyffredinol o resymoli partneriaethau lleol ac o sicrhau eu bod yn gweithredu o dan broses ddemocrataidd, fodd bynnag, rydym ni o'r farn fod angen eglurhad pellach ynghylch:

- Byrddau Ardal

Dylai'r cysylltiad rhwng Byrddau Ardal a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn glir ac felly hefyd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddau. Er enghraifft, ai'r Byrddau Ardal fydd yn cyflwyno neges cymunedau i'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus? Ydyn nhw'n gyrff sy'n darparu amcanion y cynllun lles? Beth yw eu swyddogaeth o ran gweithgareddau Awdurdodau Lleol, er enghraifft, cynllunio defnydd tir a darparu gofynion Bil yr Amgylchedd.

Ymddengys y gallai'r Byrddau Ardal ddarparu rhan o'r cyfleoedd ar gyfer cysylltu â chymunedau sydd ei angen o dan y Bil Amgylchedd o ran sefydlu Datganiadau Adnoddau Naturiol Ardaloedd. Fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes â rhan fel aelod statudol o bob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byddwn yn rhybuddio yn erbyn cael llw o drefniadau cysylltu, byddai'n well cael un trefniant a allai fodloni gofynion sawl gwasanaeth. O ran cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Lleol ac â'r Byrddau ardal, byddai'r cynigion diwygio i leihau nifer yr Awdurdodau Lleol yn cael croeso gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai hyn yn ein galluogi ni a chyrrff eraill y sector cyhoeddus i sicrhau ein bod yn cysylltu'n llawn ac ar y lefel briodol o statws swyddogion.

3. Trefniadau Llywodraethu Lleol

Rydym ni'n cefnogi'r newidiadau a gynigir i symleiddio ac i wneud trefniadau llywodraethu lleol yn gliriach. Yn benodol, rydym ni'n cefnogi hyfforddi cynghorwyr yn well, er enghraifft ar Bolisi Cynllunio ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Byddai hyn yn eu galluogi i gyflwyno gwybodaeth well i'w cymunedau ac yn cefnogi cynaliadwyedd o ran cymryd penderfyniadau sydd ei angen o dan Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y swyddogaeth o allu herio'r sefydliad yn effeithiol o ran cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf.

4. Amcanion cynllunio corfforaethol a'r cynllun lles

Gallai'r datganiad yn y ddogfen grynodedd mai Arweinwyr fydd yn dewis y blaenoriaethau lleol a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun Lles arwain at beth dryswch. Er ein bod yn deall mai'r Arweinydd sy'n cael ei enwebu i fod y lefel uchaf sy'n cytuno'r blaenoriaethau mewn Awdurdod Lleol, dylai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ddatblygu'r cynllun Lles. Yn ôl ein dealltwriaeth ni, dylai aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol rannu eu blaenoriaethau a chytuno, fel grŵp, ar y blaenoriaethau allweddol ac â'r amcanion lles ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol hwnnw. Dylai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol fod yn chwilio am synergeddau ac am ffyrdd cyfun o weithio ar fyddai'n arwain at fuddion lluosog i gymunedau'r Awdurdodau Lleol hynny yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon.

Dylai cynllun corfforaethol sefydliadau unigol ddangos yr amcanion Lles ar gyfer y sefydliad hwnnw a dylid cyflwyno'r rhain i'r Bwrdd Gwasanaethu Lleol i ystyried ar y cyd beth ddylid ei gynnwys yn y cynllun lles. Rydym ni, felly, yn croesawu'r gofyniad y dylai Awdurdodau Lleol gael cynllun corfforaethol sy'n dangos eu blaenoriaethau allweddol ac yn croesawu bod y ddogfen ymgynghori lawn yn ei gwneud yn gliriach beth fydd swyddogaeth y cynllun corfforaethol wrth gyfarfod gofynion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ond, efallai, fod hwn yn faes lle bydd angen eglurhad pellach.

5. Craffu allanol:

Rydym ni o'r farn fod yna le i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gwiriadau allanol ar gyfer cynlluniau corfforaethol Awdurdodau Lleol a'u darpariaeth. Gallai'r adolygiad dwy flynedd gan gymheiriaid sy'n cael ei chrybwyll fod ar ei mantais o gael mewnbwn gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fe fyddwn yn croesawu eglurhad pellach ar y berthynas rhwng swyddogaeth craffu Awdurdodau Lleol, fel sy'n cael ei ddangos yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn croesawu hefyd y cynigion ar gyfer eu cryfhau sy'n cael eu cynnwys yn y Papur Gwyn hwn. Er enghraifft, o ran craffu'r Byrddau'r Gwasanaethau Lleol a chraffu rhanbarthol a chan bartneriaethau, beth yw swyddogaethau a chyfrifoldebau partneriaid statudol ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol?

Rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer cryfhau'r cysylltiadau rhwng cyrff adolygu mewnol ac allanol.

Yn y drafodaeth ar sefydlu pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol, mae cyfeiriad at asesiadau gwerth am arian a darparu canlyniadau. Efallai y bydd angen egluro'r adran hon ymhellach o ran beth yw ystyr gwerth am arian, hynny yw, ei fod yn golygu ystyried canlyniadau datblygiadau cynaliadwy a'i fod felly yn rhan o'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.